# Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013

**2013 dccc 2**

*Gorfodi*

## 17 Pŵer mynediad

(1) Caiff swyddog awdurdodedig i awdurdod bwyd, ar ôl dangos ei awdurdod ysgrifenedig os caiff ei erchi i wneud hynny, fynd i mewn ar bob adeg resymol i sefydliad busnes bwyd er mwyn—

(a) llunio sgôr hylendid bwyd;

(b) gwneud ailsgoriad;

(c) penderfynu apêl o dan adran 5; neu

(d) gorfodi unrhyw un neu rai o'r gofynion yn adran 7.

(2) Ond yn achos mynediad i unrhyw ran o sefydliad sy'n cael ei ddefnyddio fel annedd breifat yn unig, rhaid rhoi 24 awr o rybudd o'r bwriad i fynd i mewn iddo i'r gweithredwr.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 17 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 27(2)**

**I2** A. 17 mewn grym ar 28.11.2013 gan O.S. 2013/2617, **ergl. 3(j)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 28/11/2013.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013, Adran 17.